# Yr Hyn a Wnawn

**2018/2019**

ADOLYGIAD BLYNYDDOL TRWYDDEDU TELEDU

## Mae Trwyddedu Teledu yn helpu pobl i ddeall pryd mae arnyn nhw angen Trwydded Deledu a sicrhau bod gwylwyr wedi'u trwyddedu'n gywir.

Rydym yn parhau i gasglu ffi'r drwydded yn y ffordd fwyaf cost-e feithlon, i ariannu rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Rydym yn datblygu cynlluniau a pholisïau talu i gefnogi'r rhai sy'n ei chael yn fwy anodd talu, gan weithio gyda sefydliadau cyngor ariannol a chymunedol ledled y Deyrnas Unedig. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar gynorthwyo'r rhai sy'n gymwys i gael trwydded dros 75 am ddim o fis Mehefin 2020 a chynnig pob cymorth i'r rhai sydd angen talu bellach.

## Sut bydd ein cwsmeriaid yn talu

Mae yna wahanol ffyrdd o rannu'r gost, felly gall cwsmeriaid ddewis y cynllun talu sy'n addas iddyn nhw.

**Ffyrdd o dalu**

- **0.1%** Swyddfa'r Post (Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)
- **0.1%** Bancio ar lein
- **1.2%** Cerdyn cynilo
- **1.9%** Siec drwy'r post
- **3.2%** PayPoint
- **6.6%** Cerdyn talu
- **10.8%** Cerdyn Credyd/Debyd
- **76.3%** Debyd Uniongyrchol

Fe gafodd niferoedd eu talgrynnu

## Rydym yma i helpu

Mae rhai pobl yn cael trafferth ffordio ffi'r drwydded, tra bo eraill o bosib ag anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i dalu neu gyfathrebu â ni.

**Eleni buom yn gweithio gyda thros 350** o sefydliadau cyngor ariannol a chymunedol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae treial y Cynllun Talu Syml, sy'n ceisio helpu pobl ar yr incwm isaf, yn gweithredu ond mae ar gau i ymgeiswyr newydd. Bydd penderfyniad ar ddyfodol y cynllun yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Nifer y trwyddedau

**Y mae 25.8m o drwyddedau mewn grym.**

Mae'r nifer wedi gostwng ychydig o'r flwyddyn flaenorol, **84,500** yn llai.

## Cwynion

Rydym wedi gostwng cwynion 31.2% dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

**31.2%**

Mae cwynion eleni ychydig yn uwch na'r llynedd, ond nid yw cwynion ond yn 0.05% o nifer y trwyddedau mewn grym.

## Cadw lefelau osgoi yn isel

Mae'r ganran sy'n osgoi ffi'r Drwydded Deledu rhwng **6% a 7%** ac mae **93% i 94%** o gyfeiriadau wedi'u trwyddedu'n gywir.*

**Ymwelwyd â 2.7m o gyfeiriadau y llynedd gan ddal 216,900 o bobl yn gwylio'r teledu heb drwydded.**

## Mynd yn ddi-bapur

Fe wnaeth **88%** o bobl ddewis Trwydded Deledu ar lein trwy e-bost wrth brynu ar y wefan, i fyny o **83%** y flwyddyn flaenorol.

Erbyn hyn mae tua **9.6m** o bobl yn derbyn eu trwydded trwy e-bost, i fyny o **8.4m** y flwyddyn flaenorol.

**9.6m** **8.4m**

## Cost casglu'r Drwydded Deledu

**Cyfanswm costau casglu £102.6m**

- **£59.9m** Costau casglu: canolfannau galwadau, swyddogion ymweld, datgeliad a gwasanaethau.
- **£15.1m** Cyfathrebu: llythyrau atgoffa ac ymgyrchoedd gwybodaeth.
- **£12.5m** Postio
- **£8.5m** Diweddaru systemau a threial y Cynllun Talu Syml.
- **£4.7m** Gweinyddu a rheoli contractau.
- **£1.9m** Dibrisiant systemau newydd.

## Cynnydd yn ffi'r drwydded

Erbyn hyn mae Trwydded Deledu safonol **yn costio:** **£154.50**

Yn 2018/19 y gost oedd £150.50.

Yn 2016 fe gyhoeddodd y Llywodraeth y byddai ffi'r drwydded yn codi'n unol â chwyddiant am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2017.

## Trwyddedu Teledu ar lein

**Mae 70% o drwyddedau yn cael eu prynu ar lein erbyn hyn.**

Cafwyd **26.5m** o ymweliadau a **9.4m** o drafodion ar ein gwefan.

Mae hyn yn gynnydd o tua **9%** a **7%** ar y flwyddyn flaenorol.

**75%** Mae 75% o gysylltiadau â chwsmeriaid trwy sianeli hunanwasanaeth.

## Trwyddedau dros 75

**075 DDIM**

O fis Mehefin 2020 mae cyllid y Llywodraeth ar gyfer Trwyddedau Teledu am ddim i bobl dros 75 yn dod i ben, ac yna bydd y BBC yn ariannu trwydded **am ddim i bobl dros 75 sy' derbyn Credyd Pensiwn.** Bydd Trwyddedu Teledu yn darparu cymorth wyneb yn wyneb trwy raglen allgymorth wedi'i chyflwyno gan staff gofal cwsmeriaid a gafodd eu hyfforddi'n arbennig. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau cefnogi i'w gwneud yn **hawdd hawlio'r drwydded am ddim** a helpu'r rhai sydd angen talu bellach trwy gynnig cynllun **'Talu Wrth Fynd'** newydd.

## Cynhyrchu incwm

Yn 2018/19 roedd incwm ffi'r drwydded yn **£3,690m (dros £3.6bn)**.

**£3.6bn+**

Gostyngiad o £140m ar y flwyddyn flaenorol.

Mae'r dirywiad hwn oherwydd cyfraniad gostyngol y Llywodraeth at gost trwyddedau dros 75 am ddim.

Gallwch weld sut cafodd Ffi'r Drwydded ei gwario yn 2018/19 trwy fynd i wefan y BBC.

TV LICENSING

Dilynwch ni ar Twitter **@TVLicensingNews**

Rydym ar YouTube yn **youtube.com/tvlicensing**

Gallwch weld delweddau a graffeg Trwyddedu Teledu ar Flickr **www.flickr.com/photos/tvlicensing**

I gael gwybod mwy am Drwyddedu Teledu ewch i **www.tvlicensing.co.uk**

*Gellir amcangyfrif ffigurau osgoi'r Drwydded Deledu o fewn ystod yn unig, oherwydd mai amcangyfrifon yw rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo. Nid yw newidiadau o lai nag 1% yn arwyddocaol yn ystadegol.